Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(4)-24-15 P3

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Interim

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015 ac fe'i paratowyd ar y cyd, a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae'r canlynol yn wir:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2015-16 o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 029 2032 0500
E-bost post@archwilio.cymru

Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, y cynnydd a wnaed gennym tuag at y canlynol:

- cyflawni rhaglen gwaith archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2015-16;
- cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2018; a
- chyflawni ein targedau mesur perfformiad allweddol.

Dros y chwe mis diwethaf, ni fu angen gwyro'n sylweddol oddi wrth y rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16. Mae bron y cyfan o'r gwaith a gynlluniwyd naill ai wedi cael ei gyflawni, neu'n mynd rhagddo yn ôl y bwriad, diolch i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau dros dair blynedd a'n targedau mesur perfformiad allweddol a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n ceisio gwella effeithiolrwydd archwiliadau sector cyhoeddus yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu gorffwys ar ein rhwyfau. Rydym nawr yn canolbwyntio ar barhau â'r momentum hwn ar gyfer gweddill 2015-16 a thu hwnt er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac i bobl Cymru.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Garner
Y Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

Cynnwys

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 6

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau dros dair blynedd a'n targedau mesur perfformiad allweddol 8

Atodiad 1 - Gwybodaeth fanwl ar y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, sy'n gyson â'n Cynllun 9

Atodiad 2 - Sylwadau ar y cynnydd a wnaethom yn ystod y cyfnod adrodd tuag at gyflawni bob un o'n blaenoriaethau dros dair blynedd 15

Atodiad 3 - Asesiad llawn o'r cynnydd a wnaed yn ystod hanner cyntaf 2015-16 tuag at gyflawni ein targedau mesur perfformiad allweddol 25

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16

Ni fu angen gwyro'n sylweddol oddi wrth raglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16. Fel yr amlinellir yn Atodiad 1, mae bron y cyfan o'r gwaith a gynlluniwyd naill ai wedi cael ei gyflawni i gyd, neu'n mynd rhagddo yn ôl y bwriad.

Gweler Atodiad 1 - Gwybodaeth fanwl ar y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, sy'n gyson â'n Cynllun

Roedd hyn yn cynnwys:

- archwilio cyfrifon mwy na 800 o gyrff cyhoeddus, a rhoi barn archwilio amserol ar gyfrifon pob un o gyrff y GIG, llywodraeth ganol a phrif gyrff llywodraeth leol ar gyfer 2014-15;
- cynnal archwiliadau ac asesiadau gwella ar gyfer 28 o gyrff llywodraeth leol, a chyhoeddi 20 o adroddiadau gwella blynyddol;
- gwaith ardystio ar gynlluniau grant llywodraeth leol gwerth bron i £3 biliwn a oedd yn cynnwys dros 450 o hawliadau unigol, a hawliadau am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru a chyrff a noddir ganddi gwerth oddeutu £300 miliwn;
- rhaglen dreigl o astudiaethau llywodraeth leol a'r GIG, a chyhoeddi tri adroddiad cenedlaethol;
- gwaith archwilio perfformiad lleol ac asesiadau strwythuredig o fewn 10 corff y GIG, a chyhoeddi adroddiad ar ddarlun cymharol o wasanaethau orthopedig ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol;
- rhaglen barhaus o astudiaethau gwerth am arian ac archwiliadau ymatebol a gyflawnodd chwe allbwn yn ystod y cyfnod er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eu hystyried;
- rhaglen o waith arfer da a oedd yn cynnwys pedwar seminar dysgu a rennir, tri gweminar dysgu a rennir a chanllawiau arfer da ar gynnwys staff ac ymgysylltu â hwy; a
- rhaglen o weithgarwch ar y cyd a oedd yn cynnwys gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

Yn y Cynllun, gwnaethom nodi bod y rhaglen o waith a wnaed er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau, a bod y cynlluniau ar gyfer rhai astudiaethau gwerth am arian wrthi'n cael eu hadolygu.

Ers hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi hysbysu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bydd y gwaith o ddatblygu adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus newydd yn cael blaenoriaeth, yn y byrdymor, dros astudiaeth a gynlluniwyd ar ymyriad cynnar a newid ymddygiad. Bydd yr adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys rhywfaint o sylwadau ar thema ymyriad cynnar a newid ymddygiad ac mae rhagor o waith yn y maes hwn wrthi'n cael ei ddatblygu fel rhan o'n rhaglen arfer da.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wrthi'n adolygu cynlluniau ar gyfer astudiaeth ar ymyriadau Llywodraeth Cymru ym maes llywodraeth leol, yn sgil adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriadau Ynys Môn ac er mwyn ystyried unrhyw oblygiadau ehangach sy'n deillio o raglen ddiwygio llywodraeth leol.

Yn ogystal, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal trafodaethau â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ynglŷn â phynciau y mae'n ystyried dechrau cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn perthynas â hwy dros y 12 mis nesaf.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ein blaenoriaethau dros dair blynedd a'n targedau mesur perfformiad allweddol

Ar 30 Medi 2015, rydym ar y trywydd cywir i gyflawni pob un o'r 37 o flaenoriaethau dros dair blynedd a nodir yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae dyletswydd newydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn golygu bod angen i ni ailfeddwl ein blaenoriaeth o ran gwaith archwilio llywodraeth ganolog sy'n canolbwyntio ar gyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol ar ganlyniadau'r gwaith archwilio a wneir o fewn y sector llywodraeth ganolog.

Gweler Atodiad 2 - Sylwadau ar y cynnydd a wnaethom yn ystod y cyfnod adrodd tuag at gyflawni bob un o'n blaenoriaethau dros dair blynedd

Gellir crynhoi'r sefyllfa gyffredinol ar 30 Medi 2015 o ran ein 35 o fesurau perfformiad allweddol fel a ganlyn:

- Rydym wedi cyflawni ein targedau ar gyfer 15 o'r mesurau.
- Rydym wedi rhagori'n sylweddol ar ein targedau ar gyfer dau fesur: I1 (Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan gyrff archwiliedig) a C2 (Y gyfran o erthyglau ynglŷn â'n gwaith a gyhoeddir yn y cyfryngau, ac sydd o safbwynt cadarnhaol neu niwtral).
- Caiff data ar gyfer mesur I2 (Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith) eu casglu yn ystod chwarter olaf 2015-16.
- Nid ydym eto wedi dechrau casglu data ynglŷn â dau o'r mesurau effaith: I4 (Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall) ac I5 (Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn fod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus). Byddwn yn casglu data fel y bwriadwyd drwy ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid y disgwylir ei gynnal yn ystod ail hanner 2015-16.
- Ar gyfer y 17 o fesurau sy'n weddill, lle nad yw'r targed wedi'i gyflawni eto, aseswyd bod y risg gysylltiedig yn isel ar gyfer naw mesur, yn ganolig ar gyfer saith mesur arall, ac yn uchel ar gyfer y mesur arall: E4 (Y gyfran o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio).

Rydym wedi nodi cynlluniau i gyflawni pob targed sy'n weddill.

Mae perfformiad presennol yn erbyn y targedau ar gyfer mesurau arweinyddiaeth a chymdeithasol L2, L3, L4 ac S3, sydd wedi ei fesur drwy arolwg staff 'pulse' diweddar, yn brif ffocws i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arweiniol ar hyn o bryd. Rydym wedi ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r arolwg staff 'pulse', ac fel rhan o'n hymateb, rydym wedi cytuno i weithio gyda'n staff a phartneriaid undebau llafur ar ymarfer i ddadansoddi a datblygu ymgysylltiad ac ymddiriedaeth yn y sefydliad dros y chwe mis nesaf, gan fabwysiadu dull a ddefnyddiwyd yn un o'n digwyddiadau Cyfnewidfa Arfer Da diweddar.

Mae gwaith pellach hefyd wrthi'n cael ei wneud, gan gynnwys gwaith gyda chymorth yr elusen cynaliadwyedd WRAP ac Asiantaeth yr Amgylchedd, i ailasesu ein methodolegau monitro gwastraff a'n perfformiad yn erbyn ein targed ar gyfer mesur E4.

Gweler Atodiad 3 - Asesiad llawn o'r cynnydd a wnaed yn ystod hanner cyntaf 2015-16 tuag at gyflawni ein targedau mesur perfformiad allweddol

Atodiad 1 - Gwybodaeth fanwl ar y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, sy'n gyson â'n Cynllun

Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed gwaith ar archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau am grant a ffurflenni, archwiliadau ac asesiadau gwella, ac astudiaethau llywodraeth leol, sy'n gyson â'n Cynllun ac yn cydymffurfio â safonau archwilio a moesegol a gofynion adrodd statudol. Rhoddwyd barn archwilio ar gyfrifon pob un o'r prif gyrff llywodraeth leol ar gyfer 2014-15 erbyn y terfyn amser statudol, a chyhoeddwyd 20 o adroddiadau gwella blynyddol a thri adroddiad cenedlaethol.

Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol
4 comisiynydd heddlu a throseddu
4 prif gwnstabl
8 cronfa bensiwn
Nifer o gyrff llywodraeth leol llai eraill gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr
Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o fwy na 740 o gynghorau tref a chymuned

Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 o awdurdodau unedol (gan gynnwys chwe asesiad corfforaethol manylach)
3 awdurdod tân ac achub
3 awdurdod parc cenedlaethol

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Hyd at 25 o gynlluniau gwerth bron i £3 biliwn ac yn cynnwys tua 450 o hawliadau unigol

Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru
Diogelu - trefniadau llywodraethu
Trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned a thref 2013-14
Mynd i'r afael â'r galw ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - cefnogi annibyniaeth pobl hŷn
Cyflawni â llai - gwasanaethau hamdden

Astudiaethau parhaus

Sefyllfa a chydnerthedd ariannol (astudiaeth ddilynol)
Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector
Dull gweithredu strategol cynghorau o ran cynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau
Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol

Gwaith archwilio a wnaed yng nghyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o fewn GIG Cymru yn cwmpasu pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol a thair Ymddiriedolaeth y GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn flynyddol ar gyfrifon pob un o gyrff y GIG ar gyfer 2014-15, ac wedi cyflwyno adroddiad yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad ar ddarlun cymharol o wasanaethau orthopedig ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â'r amserlen a nodir yn ein Cynllun ac mewn cydymffurfiaeth â safonau archwilio a moesegol a gofynion adrodd statudol

Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfrifon cryno bwrdd iechyd lleol
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

Gwaith archwilio perfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG

Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol
3 o ymddiriedolaethau'r GIG

Astudiaethau a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth

Rheoli meddyginiaethau yn y sector acíwt
Gwasanaethau cleifion allanol: apwyntiadau dilynol
Trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (astudiaeth ddilynol)

Astudiaethau parhaus

Seilwaith a chapasiti TG
Gwasanaethau radioleg
Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG (astudiaeth ddilynol)
Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai (astudiaeth ddilynol)

Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr statudol, arolygwyr a rheoleiddwyr, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn flynyddol ar gyfrifon y cyrff llywodraeth ganolog a restrir ar gyfer 2014-15, yn gyson â'n Cynllun ac mewn cydymffurfiaeth â safonau archwilio a moesegol a gofynion adrodd statudol. Mae gwaith archwilio perfformiad hefyd wedi'i gynnal yn y sector hwn, fel rhan o raglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian.

Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif Ardrethi Annomestig Cymru
- Cyfrif anfonebau a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan
- Cymeradwyo taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru

Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrif a Chyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Hawliadau gwerth oddeutu £300 miliwn mewn perthynas â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi

Gwaith archwilio a wnaed er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys astudiaethau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio ar nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sydd o bryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Mae allbynnau'r rhaglen hon yn ystod y cyfnod adrodd, a gyflawnwyd yn gyson â'n Cynllun, wedi cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad er mwyn helpu i sicrhau bod eu hymchwiliadau craffu'n cael yr effaith orau bosibl. Gan edrych i'r dyfodol, gall yr Archwilydd Cyffredinol benderfynu cynhyrchu adroddiadau cryno cenedlaethol o ganfyddiadau archwiliadau o berfformiad lleol y GIG mewn nifer o feysydd eraill, ond mae union amseru a chynnwys yr allbynnau hyn wrthi'n cael eu cadarnhau.

Astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno neu archwiliadau ymatebol a gwblhawyd

- Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf
- Consortia addysg rhanbarthol
- Gwasanaethau orthopedig
- Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol – crynodeb o ganfyddiadau gwaith archwilio lleol – memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru – memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

Adroddiadau cryno sydd ar waith

- Rheoli meddyginiaethau

Astudiaethau gwerth am arian parhaus

- Darlun o wasanaethau cyhoeddus
- Camau Llywodraeth Cymru i gaffael Maes Awyr Caerdydd
- Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaethau rheilffyrdd
- Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio
- Rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu
- Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Archwiliadau ymatebol parhaus

- Rhestrau aros y GIG a phractisau preifat
- Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru
- Adolygiad o drefniadau llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gwaith arfer da

Un o ddwy brif ran ein gwaith arfer da yw darparu adnoddau ar-lein am ddim sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol. Mae'r rhan arall o'n gweithgarwch yn cynnwys hwyluso sgyrsiau lle y caiff gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymaradwy eu rhannu wyneb yn wyneb. Mae'r rhaglen hon wedi cyflawni nifer o allbynnau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Medi 2015, yn gyson â'n Cynllun, a chyda phwyslais penodol ar hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth dros ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

Seminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Amseroedd aros y GIG

Annibyniaeth pobl hŷn

Ymddiriedaeth yn ystod newid sefydliadol sylweddol

Ymddiriedolwyr a threfniadau llywodraethu gweithgareddau trydydd sector

Gweminarau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd

Profiad cleifion

Cynnwys staff ac ymgysylltu â hwy

Twyll a llygredd

Canllawiau arfer da a ddarparwyd

Cynnwys staff ac ymgysylltu â hwy

Hwyluso dysgu ar y cyd a chymorth cymunedol yn allanol

Ysgol haf Academi Cymru

Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru

Arfer Da Cymru

Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gweithgarwch ar y cyd

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith. Yn gyson â'n Cynllun, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith, ac wedi gwneud ychydig o waith archwilio a gomisiynwyd.

Cyflawni cydgysylltiedig

Menter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU

Gweithio gydag Estyn i gynnal astudiaethau gwerth am arian o gonsortia addysg rhanbarthol

Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn

Ardystio cyfrifon Cronfa Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn flynyddol

Cynnal adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwilio hawliadau grant yr UE ar gyfer Prifysgol Morgannwg

Gweithredu fel Prif Archwilydd i gyfrifon Llywodraeth Anguilla, ac archwilio'r cyfrifon hynny

Grwpiau meincnodi rheoli gwastraff a gwastraff masnachol

Bod yn sylwedydd ar weithgorau allanol

Cyngor Partneriaeth Cymru

Bwrdd Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol

Grŵp cynghori a chyfeirio Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Bwrdd Gweithredu Trysorlys Llywodraeth Cymru

Fforwm Treth Cymru y Gweinidog Cyllid

Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC

Bwrdd Uned Ddata Llywodraeth Leol

Bwrdd Prosiect Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub

Aelodaeth o weithgorau allanol

EURORAI

Rhwydwaith Adroddiadau Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Adroddiadau Integredig Rhyngwladol

Y Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol

Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC

Pwyllgor Archwilio Sector Cyhoeddus ICAEW

Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA

Menter Arolygu Cymru

Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Arolygiaethau Diwygio Budd-dal Tai a Lles y DU

Panel cyswllt 'Cadw mewn Cysylltiad' y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Arolygiaeth Prawf EM

Atodiad 2 - Sylwadau ar y cynnydd a wnaethom yn ystod y cyfnod adrodd tuag at gyflawni bob un o'n blaenoriaethau dros dair blynedd

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Sicrhau gwelliant pellach i'n hasesiadau lleol o gyflwr ariannol ac o ansawdd cynllunio ariannol a pharhau i roi trosolwg blynyddol o Gymru gyfan	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Alan Morris Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol	Ar y trywydd cywir. Mae cynlluniau wedi'u datblygu ar gyfer cynnal asesiad yn 2015-16 o gyflwr ariannol llywodraeth leol er mwyn adeiladu ar y trosolwg o Gymru gyfan ar gyfer 2014-15 a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015. Bwriedir ei gyflawni yn ystod gweddill 2015-16.
Integreiddio'n well y gwaith o gynllunio ac adrodd ar ein harchwiliad lleol o gyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad, yn enwedig o ran archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, a chysoni ein gwaith ymhellach â gwaith cyrff adolygu allanol eraill	2015-2016	Alan Morris	Ar y trywydd cywir. Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud i integreiddio'r gwaith o gynllunio ein rhaglenni gwaith ar gyfer 2015 yn well. Cynllunnir rhagor o waith ar gyfer gweddill 2015-16 er mwyn integreiddio cynlluniau ymhellach yn ystod 2016-17. Mae ein grŵp strategaeth llywodraeth leol hefyd yn ystyried sut i integreiddio'r broses o adrodd yn flynyddol ar ein gwaith archwilio yn well, gan ystyried yn benodol ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynigion y Papur Gwyn Llywodraeth Leol.
Paratoi i gyflwyno trefn lle caiff cyfrifon llywodraeth leol eu cau ynghynt, ac am effaith newidiadau i'r gyfundrefn cyllid grant yng Nghymru – newidiadau sy'n deillio o delerau ac amodau newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru neu sy'n deillio o'r Credyd Cynhwysol a gyflwynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau	2015-2016	Anthony Barrett Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Ariannol	Ar y trywydd cywir. Rydym wedi dechrau gwaith ar baratoi ar gyfer cau cyfrifon llywodraeth leol yn gyflymach. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer cau cyfrifon yn gynharach. Rydym eisoes wedi ystyried lefel sy'n lleihau o ardystio grantiau yn ein gwaith cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu ar gyfer 2016-17 a thu hwnt. Cyn bo hir, byddwn yn ystyried ein paratoadau ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.
Addasu ein fframwaith ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth mewn adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu	2016	Anthony Barrett	Mae ein fframwaith ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned bellach wedi'i addasu, a bwriedir i waith newydd yn y maes hwn ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn galendr nesaf.
Archwilio pa mor barod yw cyrff llywodraeth leol ar gyfer diwygio ac uno, a'u cynlluniau ar gyfer hynny	2016-2018	Alan Morris	Heb ddechrau eto. Bwriedir i'n gwaith yn y maes hwn ddechrau y flwyddyn nesaf. Mae ystyriaeth gychwynnol yn cael ei rhoi i ymgorffori gwaith ar fod yn barod i uno yn rhan o raglenni gwaith archwilio 2016-17, gan gynnwys asesiadau corfforaethol.

Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Sefydlu Panel Arbenigwyr y GIG, gan gynnwys academyddion a chyrff proffesiynol iechyd, i gynghori ynghylch pob agwedd ar ein rhaglen archwilio iechyd	2015	Gillian Body Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad	Ar y trywydd cywir. Nodwyd aelodau ar gyfer Panel Arbenigwyr a fydd yn cynghori ynghylch llunio rhaglen archwilio perfformiad y GIG yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2016.
Datblygu ymhellach gynnwys ac effaith ein hadroddiadau i gyrff y GIG ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, er mwyn rhoi cefnogaeth well ar gyfer gwella gwasanaethau a gwelliant corfforaethol	2015	Gillian Body	Ar y trywydd cywir. Cafodd Memorandwm ar Lywodraethu yn y GIG yng Nghymru ei baratoi er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2015. Caiff effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ei fonitro'n rheolaidd erbyn hyn, fel rhan o waith asesu strwythuredig blynyddol o fewn pob un o ddeg corff y GIG, gyda theilwra lleol i ganolbwyntio ar y cynnydd a wneir yn erbyn meysydd gwella a nodwyd yn flaenorol.
Cymryd rhan yn llawn er mwyn gweithredu'r protocol newydd ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd trefniadol ar draws GIG Cymru	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Mike Usher Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog	Ar y trywydd cywir. Ymgysylltu parhaus â threfniadau protocol teirochrog GIG Cymru gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae systemau trafod wedi'u trefnu ac ad hoc wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus, a bydd y tri pharti'n adolygu effeithiolrwydd y protocol ar y cyd ddiwedd 2015.
Defnyddio gwaith archwilio lleol i gyflwyno darlun cenedlaethol o berfformiad cymharol yng nghyrff y GIG o ran cyllid a gwasanaethau	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Mike Usher	Ar y trywydd cywir. Ar gyfer 2015-16 bydd adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn cymryd lle adroddiad cyllid blynyddol y GIG. Gwneir gwaith asesu strwythuredig yng nghyrff lleol y GIG yn ystod 2016 i gefnogi adroddiad cyllid y GIG ar gyfer 2016-17.
Cyhoeddi adolygiad archwilio o weithrediad cychwynnol cynlluniau cyflenwi integredig tair blynedd y GIG	2017	Mike Usher	Heb ddechrau eto. Bydd gwaith cynllunio a chwmpasu manwl ar gyfer y prosiect hwn yn dechrau yn ystod hydref 2016.

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Cyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol ar ganlyniadau gwaith archwilio a gwblhawyd yn y sector llywodraeth ganolog	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Mike Usher	Wrthi'n cael ei adolygu. Bydd yr adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth am y sector llywodraeth ganolog. Yn sgil dyletswyddau newydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae angen ailfeddwl y flaenoriaeth hon a gynlluniwyd.
Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, archwilio'r potensial i gynnal rhaglen gylchol o adolygiadau archwilio llywodraethu a pherfformiad ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi	2015-2016	Mike Usher	Wedi'i ohirio. Bydd gwaith ar y flaenoriaeth hon yn dechrau ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.
Rhoi sylwebaeth archwilio i Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch pa mor barod ydynt am y pwerau ariannol a gyflwynir ac ar gynnydd a wneir drwy'r camau cynllunio a gweithredu	2015-2018	Mike Usher	Ar y trywydd cywir. Ceir cadarnhad erbyn hyn mai'r dyddiad y daw datganoli cyllidol i rym yng Nghymru yw 1 Ebrill 2018. Ar sail profiad yr Alban, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi sylwadau ysgrifenedig cychwynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol ddiwedd 2016 neu ddechrau 2017, gydag adroddiadau pellach yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ôl yr angen. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gydgysylltu'n agos â dau Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod eu gofynion yn cael eu diwallu.
Gwerthuso a pharatoi am y goblygiadau cyfrifo ac archwilio yn sgil gweithredu pwerau ariannol Cymru, ynghyd â'r ymateb sydd ar ddod gan Lywodraeth y DU i adroddiad 'Silk 2'	2015-2018	Mike Usher	Ar y trywydd cywir. Rydym wedi dechrau trafodaethau â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland ynghylch goblygiadau datganoli cyllidol i Gymru o ran cyfrifyddu ac archwilio ac maent yn cydweithio'n wych. Mae gennym hefyd sylwedydd ar Fwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru a Fforwm Treth Cymru, ac felly rydym yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson er mwyn helpu i lywio ein hasesiadau o gynllunio'r gweithlu a goblygiadau eraill.

Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Rhoi trefniadau ar wahân ar waith i atgyfnerthu ein capasiti archwilio fforensig, a sicrhau ymatebion amserol i faterion sy'n destun pryder i'r cyhoedd, heb dynnu oddi ar ein gwaith archwilio statudol	2015-2016	Gillian Body	Ar y trywydd cywir. Mae'r gwaith o recriwtio aelodau o dîm astudiaethau ymchwiliol newydd ar fin dod i ben. Rydym hefyd wedi cysylltu'n ddiweddar â'n tîm cyfatebol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd â threfniadau tebyg ar waith, i ddysgu o'u profiadau wrth sefydlu.
Cynyddu effaith ein hadroddiadau cyhoeddus, a'r diddordeb ynddynt, drwy wella dyluniad ein hadroddiadau ac ehangu ein sianelau cyfathrebu	2015-2017	Gillian Body	Ar y trywydd cywir. Mae ein Tîm Cyfathrebu wedi ailwampio diwyg a fformat ein templed ar gyfer adroddiadau er mwyn ei gwneud yn haws i ddarllenwyr ar-lein ei ddefnyddio. Yn dilyn hyfforddiant i'r staff ar 'straeon data', rydym yn defnyddio mwy o graffeg gwybodaeth a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon allweddol ein hadroddiadau.
Gwella'r gwaith yr ydym yn ei wneud sy'n archwilio systemau cyfan a'r cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig	2015-2018	Gillian Body	Ar y trywydd cywir. Gwnaed gwaith blaengynllunio ar gyfer y cylch archwilio perfformiad nesaf yn ystod haf 2015.
Cael dealltwriaeth well o ddisgwyliadau a gofynion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, drwy gynnal arolygon ymhlith yr aelodau o'u safbwyntiau ynglŷn â'r gefnogaeth a roddwn i'w gwaith craffu, a gofyn am adborth ar adroddiadau archwilio unigol	2016-2017	Gillian Body	Heb ddechrau eto. Fodd bynnag, mae gwaith paratoi eisoes yn mynd rhagddo er mwyn ystyried y dull gweithredu a'r amseru gorau.
Codi ymwybyddiaeth ymhlith Pwyllgorau'r Cynulliad ynghylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys cyfrannu at ymsefydlu Aelodau Cynulliad newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016	2016-2017	Huw Vaughan Thomas Yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr	Heb ddechrau eto. Bydd gwaith ar y flaenoriaeth hon yn dechrau ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

Cyfnewid arfer da

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Annog gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau o leiaf 50 o addewidion i weithredu o raglen flynyddol o 12 digwyddiad dysgu ar y cyd, a monitro'r broses o roi'r addewidion hynny ar waith	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Alan Morris	Ar y trywydd cywir. Rydym yn cofnodi addewidion i weithredu arnynt ar ddiwedd pob seminar dysgu ar y cyd. Rydym hefyd yn treialu dull 'Treialon Coffi ar Hap' dros y chwe mis nesaf, lle byddwn yn hwyluso sgyrsiau dilynol rhwng unigolion ynghylch sut maent yn gweithredu ar addewidion. Byddwn yn asesu llwyddiant y dull hwn ar ddiwedd y cynllun peilot.
Datblygu rhaglenni gwaith arfer da ar heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth ariannol strategol a chynllunio ar gyfer y tymor hir	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Alan Morris	Ar y trywydd cywir. Ymhlith yr enghreifftiau o ddechrau 2015-16 mae seminarau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cau cyfrifon yn gynt, llywodraethu, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac ymddiriedaeth mewn sefydliadau yn ystod cyfnodau o newid.
Buddsoddi i ddatblygu a chefnogi 'cymunedau buddiant' hunangynhaliol ymhlith cyrff cyhoeddus er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan ein gweithgarwch arfer da a rhannu dysgu	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Alan Morris	Ar y trywydd cywir. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid seminarau yn ystod 2015-16 i ddatblygu cymunedau buddiant er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëir mewn digwyddiadau. Bydd astudiaeth genedlaethol a gynlluniwyd ar ffyrdd o ymdrin â newid ymddygiad ymhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei chyflawni mewn ffordd arloesol gan ddefnyddio dulliau arfer da a chyda ffocws cryf ar ddatblygu cymunedau arfer.
Cynyddu'r gyfran o brosiectau archwilio sy'n cynnwys gweithgarwch ac allbwn arfer da a rhannu dysgu	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Alan Morris	Ar y trywydd cywir. Mae cysylltiadau rhwng y Tîm Arfer Da a'n timau archwilio eraill yn cael eu hatgyfnerthu ac mae nifer gynyddol o seminarau yn ystod 2015-16 yn cael eu cysylltu â phrosiectau archwilio neu ffrydiau gwaith cysylltiedig. Ymhlith yr enghreifftiau mae cau cyfrifon yn gynt, annibyniaeth pobl hŷn, amseroedd aros y GIG, chwythu'r chwiban, llywodraethu, gwaith archwilio TG ac astudiaethau ar newid ymddygiad ac ymyriadau mewn llywodraeth leol.

Ymgysylltu a chydweithio

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Rhoi trefniadau ar waith er mwyn gwella'r rheolaeth ar ohebiaeth gan y cyhoedd neu bartïon eraill â diddordeb am faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys darparu ymatebion cyflymach a mwy sylweddol	2015	Kevin Thomas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	Ar y trywydd cywir. Ymgorfforwyd adolygiad o drefniadau trin gohebiaeth yn rhan o'r prosiect ailstrwythuro Gwasanaethau Corfforaethol a gwblhawyd yn ddiweddar. Mae canllawiau newydd i'r cyhoedd ar ohebu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cael eu datblygu a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae prosesau diwygiedig i gefnogi atebolrwydd o ran trin gohebiaeth yn cael eu gweithredu.
Gwella ein dealltwriaeth o sectorau a'n perthynas â chyrff archwiliedig ymhellach, er mwyn creu sail well ar gyfer ein rhaglen waith a chyfrannu at ddatblygiadau a gwelliannau ar draws y sector cyhoeddus	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Huw Vaughan Thomas	Ar y trywydd cywir. Mae gwaith yr Arweinwyr Sector yn atgyfnerthu ein hymgysylltiad ar lefel strategol, yn enwedig drwy gymryd rhan mewn grwpiau amrywiol fel sylwedyddion. Mae rôl y Cyfarwyddwr Ymgysylltu, a sefydlwyd yn ddiweddar, hefyd yn helpu i wella ymgysylltu â chyrff archwiliedig ymhellach.
Ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu ein perfformiad a mesur effaith ein gwaith a'n llwyddiant	2015 a phob blwyddyn ar ôl hynny	Huw Vaughan Thomas	Ar y trywydd cywir. Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i bennu effaith sy'n defnyddio staff o bob rhan o Swyddfa Archwilio Cymru, ac sydd wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Audit Scotland, sydd wedi cwblhau ymarfer tebyg yn ddiweddar, i ddatblygu ein dull gweithredu a sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau bosibl. Rydym hefyd wedi sefydlu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac rydym wrthi'n ei rhoi ar waith.
Annog ystod ehangach o gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ac ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr ymarfer paru data	2015-2016	Anthony Barrett	Ar y trywydd cywir. Rydym wedi cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan drwy roi mynediad diderfyn i gyrff sy'n cymryd rhan yn y Fenter at adnodd newydd Gwirio Ceisiadau'r Fenter yn ystod 2015-16. Nod y Gwiriwr Ceisiadau yw helpu i nodi ceisiadau am fudd-daliadau, gwasanaethau neu swyddi a all fod yn dwyllodrus neu'n wallus ar y cam gwneud cais drwy gyfateb gwybodaeth allweddol yn y ceisiadau i setiau data sy'n bodoli'n barod yn y Fenter. Mae gan y Gwiriwr Ceisiadau y potensial i fod yn adnodd hynod werthfawr i atal twyll.

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Gwella ymhellach effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru drwy weithio gyda chyrff adolygu allanol eraill i symleiddio ein hadolygiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu cudd-wybodaeth ac adnoddau	2015-2018	Huw Vaughan Thomas	Ar y trywydd cywir. Cafwyd datblygiadau sylweddol yn sgil Rhaglen Arolygu Cymru er mwyn helpu i wella cydweithredu a chydweithio rhwng y pedwar partner. Yn ystod y cyfnod, cyhoeddwyd adroddiad ar adolygiad o gonsortia addysg rhanbarthol a gynhaliwyd ar y cyd ag Estyn, ac rydym wedi gwneud gwaith ar y cyd ag AGGCC ar annibyniaeth pobl hŷn, a chydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ein gwaith llywodraethu parhaus ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Atgyfnerthu ein strategaeth ar gyfer y gweithlu er mwyn ateb y galw cyfredol a sicrhau ein bod yn gallu rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau cyfreithiol, amgylcheddol a phroffesiynol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gynllunio olyniaeth yn effeithiol	2015-2016	Steve O'Donoghue Cyfarwyddwr Cyllid	Ar y trywydd cywir. Mae prosiect strategol cynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo ac ar amser, gyda mewnbwn allanol.
Atgyfnerthu'r gallu i arwain, gan gynnwys drwy ddefnyddio adolygiadau cylch cyfan o berfformiad aelodau uwch o staff a chefnogi adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd	2015-2018	Huw Vaughan Thomas	Ar y trywydd cywir. Cytunwyd ar gynllun diwygiedig ar gyfer gwerthuso perfformiad aelodau'r Uwch Dîm Arwain, sy'n cynnwys adborth 360°. Mae cynigion ar gyfer Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth hefyd wrthi'n cael eu datblygu.
Monitro esblygiad ein trefniadau llywodraethu unigryw, gyda golwg ar rannu gwybodaeth, profiad a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu	2015-2018	Huw Vaughan Thomas	Ar y trywydd cywir. Yn unol ag arfer da, bydd y Bwrdd yn asesu ei effeithiolrwydd, ac effeithiolrwydd ei bwyllgorau, yn flynyddol. I gefnogi'r gwaith hwnnw, mae'r Bwrdd wedi gweithio gydag ymgynghorwyr i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd, gyda'r gweithdy datblygu diweddaraf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2015. Pwrpas yr adolygiad hwn yw helpu'r Bwrdd i sicrhau bod ei aelodau mor effeithiol â phosibl, yn unigol ac ar y cyd, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei nodau a'i amcanion strategol.
Gwneud defnydd mwy effeithiol o feincnodau a chymariaethau allanol er mwyn asesu ein perfformiad a mesur ein llwyddiant a'n heffaith	2015-2018	Kevin Thomas	Ar y trywydd cywir. Rydym wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU i ddatblygu ein defnydd o feincnodi allanol fel rhan o ymarfer ehangach i ddatblygu gwybodaeth reoli.

Ein defnydd o adnoddau

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Gwneud gwell defnydd o ddulliau rheoli technoleg a gwybodaeth er mwyn rhesymoli a symleiddio ein systemau a'n prosesau busnes, drwy weithredu cynllun TGCh tair blynedd treigl	2015-2018	Kevin Thomas	Ar y trywydd cywir. Cyflwynwyd system teithio a threuliau newydd gennym o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi treialu a phrofi llwyfan TG mwy effeithiol ac integredig ar gyfer cofnodi amser a rheoli data archwilio. Dechreuodd pob aelod o staff ddefnyddio elfen cofnodi amser y llwyfan TG newydd ar ddechrau mis Hydref 2015, a bwriedir cyflwyno elfen rheoli data uwch y llwyfan yng nghanol mis Tachwedd er mwyn cefnogi ein gwaith archwilio ariannol yn well. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio cyfleuster storio cwmwl hefyd.
Gwneud trefniadau pellach i sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel lle cydnabyddedig i gyfrifwyr ar draws y sector cyhoeddus gael hyfforddiant	2015-2017	Anthony Barrett	Caiff cais am gyllid ychwanegol i gefnogi'r fenter hon ei gynnwys yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17.
Cadw gafael gadarn ar gostau, ceisio sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chadw ffioedd mor isel ag sy'n bosibl	2015-2018	Steve O'Donoghue	Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gyda thargedau wedi'u pennu ar gyfer arbed £760,000 yn 2015-16. Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni hyn ar hyn o bryd o ran ein rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn.
Gwneud gwell defnydd o'n hasedau ffisegol a gwybodaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion	2015-2018	Kevin Thomas	Ar y trywydd cywir. Ochr yn ochr â gweithredu'r llwyfan TG newydd, rydym hefyd wedi penderfynu symud swyddfeydd yng Ngogledd Cymru er mwyn lleihau ein costau cyffredinol, gwneud defnydd gwell o'n swyddfeydd a gwella ein perfformiad amgylcheddol.

Blaenoriaethau dros dair blynedd a gynlluniwyd	Pryd	Arweinydd rheoli	Sylwadau ar gynnydd
Dangos ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy ein gwaith i: • wella stiwardiaeth amgylcheddol; • hyrwyddo ffordd iach o fyw a chydbwysedd bywyd-gwaith da ymhlith ein staff; • hyrwyddo cyfle cyfartal, gan ddileu gwahaniaethu a meithrin perthnasoedd da; • hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chyrraedd safonau newydd y Gymraeg	2015-2018	Kevin Thomas	Cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 y Ddraig Werdd ym mis Mehefin 2015, ac rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni lefel 5. Rydym yn cynnal ystod o ddigwyddiadau ar ymwybyddiaeth o les drwy gydol y flwyddyn, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu trefniadau sgrinio iechyd. Cynhaliwyd archwiliad hygyrchedd o'n gwefan yn ystod mis Ebrill 2015, gyda'r bwriad o ennill achrediad, a chynhaliwyd archwiliadau mynediad corfforol yn ein tair prif swyddfa yn ddiweddar. Mae trefniadau mwy effeithiol ar gyfer ymgysylltu'n allanol wedi cael eu sefydlu gyda'r Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a hwylusir gan CGGC. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn cydlynu'r gwaith o ddatblygu strategaeth sgiliau ieithyddol. Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol ar gael yn rheolaidd i'r staff erbyn hyn. Penodwyd Swyddog Iaith Gymraeg llawn amser ym mis Mehefin 2015 fel rhan o brosiect ailstrwythuro Gwasanaethau Corfforaethol.

Atodiad 3 - Asesiad llawn o'r cynnydd a wnaed yn ystod hanner cyntaf 2015-16 tuag at gyflawni ein targedau mesur perfformiad allweddol

Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
I1	Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan gyrff archwiliedig	90 y cant	98 y cant	Gwnaed 349 o argymhellion ar gyfer gwella yn ystod y cyfnod adrodd, a chafodd 342 ohonynt eu derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan gyrff archwiliedig
I2	Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith	O leiaf £6 miliwn yn 2015-16	Ddim ar gael	Nid oes data ar gael eto. Caiff data ar enillion effeithlonrwydd posibl a nodwyd neu arbedion yn y dyfodol eu casglu yn ystod chwarter olaf 2015-16.
I3	Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn fod yr Archwilydd Cyffredinol yn sylwedydd annibynnol ac awdurdodol ar y modd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu llywodraethu a'u gwarchod	O leiaf 90 y cant	92 y cant	Yr arolwg rhanddeiliaid diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod ail chwarter 2014-15. Gofynnir am adborth pellach gan randdeiliaid yn ystod pedwerydd chwarter 2015-16.
I4	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall	O leiaf 80 y cant	Ddim ar gael	Nid oes data ar gael eto. Gofynnir am adborth gan randdeiliaid yn ystod chwarter olaf 2015-16.
I5	Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn fod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus	O leiaf 80 y cant	Ddim ar gael	Nid oes data ar gael eto. Gofynnir am adborth gan randdeiliaid yn ystod chwarter olaf 2015-16.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser ac yn unol â safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
D1	Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd ar amser	95 y cant	93 y cant	O'r 999 o gynhyrchion archwilio a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod adrodd, cyflawnwyd 927 ohonynt ar amser. Mae diffyg adnoddau yn 2014-15 wedi cael effaith andwyol ar ein gallu i gyflawni gwaith archwilio perfformiad yn amserol. Bwriadwyd cyhoeddi 24 o'r adroddiadau 'hwyr' cyn dechrau'r flwyddyn ariannol hon. Roedd amseroldeb adroddiadau archwilio perfformiad y bwriadwyd eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod adrodd yn sylweddol uwch.
D2	Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd	14 y flwyddyn	18	Cyfanswm treigl blynyddol. Mae perfformiad wedi rhagori ar gyfanswm ein targed. Cyhoeddwyd saith adroddiad blynyddol yn ystod hanner cyntaf 2015-16, gan gynnwys y cyfnod purdah rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2015.
D3	Nifer y cynhyrchion arfer da a gyflawnwyd, gan gynnwys seminarau a gweminarau	20 y flwyddyn	24	Cyfanswm treigl blynyddol. Rhagorwyd ar ein targed er gwaethaf y ffaith na chafodd unrhyw seminarau dysgu a rennir eu cynnal na'u hyrwyddo yn ystod y cyfnod purdah rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2015.
D4	Cyfran yr archwiliadau a gyflawnwyd yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol	100 y cant o'r sampl blynyddol	100 y cant	Y canlyniadau diweddaraf o'n hadolygiad sicrwydd ansawdd blynyddol ar gyfer 2015. Roedd pob archwiliad a adolygwyd yn y sampl yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.
D5	Cyfran y ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru a brosesir cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y wybodaeth ofynnol	100 y cant	100 y cant	Data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16 am fod y mesur wedi dechrau ar 1 Ebrill 2015. I'w cyflwyno fel cyfanswm treigl blynyddol unwaith y bydd data digonol ar gael.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu'n effeithiol?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
L1	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd fod ganddynt hyder yn ein gwaith	O leiaf 90 y cant	94 y cant	Yr arolwg rhanddeiliaid diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod ail chwarter 2014-15. Gofynnir am adborth pellach gan randdeiliaid yn ystod pedwerydd chwarter 2015-16.
L2	Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn deall ac yn ymgysylltu â'r ymagwedd strategol yr ydym wedi'i mabwysiadu, fel y nodir yn y Cynllun	O leiaf 80 y cant	64 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015, yn fuan ar ôl lansio ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod staff yn ymgysylltu â'r ymagwedd strategol yr ydym wedi'i mabwysiadu. Maent wedi cymryd camau i flaenoriaethu ymgysylltiad yn ystod y cyfnod ers i'r arolwg gael ei gynnal ac yn ymrwymedig i gymryd camau pellach i wella ymgysylltiad staff â'r gwaith o ddatblygu a chymhwyso Cynlluniau yn y dyfodol.
L3	Cyfran y staff sy'n teimlo bod eraill yn ymddiried ynddynt i gyflawni eu swydd yn effeithiol, eu bod yn cael eu cydnabod ar ôl gwneud eu gwaith yn dda, ac sy'n teimlo bod eu rheolwr yn eu hysgogi i gyflawni eu swydd yn fwy effeithiol	O leiaf 80 y cant	75 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015. Mae rheolwyr yn gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur a Phrifysgol Coventry i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ddynameg sy'n sail i'r ymddiriedaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru.
L4	Cyfran y staff sy'n meddwl y byddent yn cael cefnogaeth i roi cynnig ar syniad newydd, hyd yn oed pe na bai'n gweithio, ac sy'n teimlo eu bod yn cael anogaeth i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau	O leiaf 80 y cant	69 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015. Mae'r lefel perfformiad bresennol yn peri pryder i'r Uwch Dîm Arwain, a chyfeirir ati yn yr arolwg o ymddiriedaeth a grybwyllwyd uchod, a gynhelir yn ystod Hydref 2015.
L5	Cyfran y staff sy'n cytuno eu bod yn derbyn gwerthusiad teg o'u perfformiad	O leiaf 95 y cant	98 y cant	Data o ffurflenni ymateb cyflogeion a lenwyd fel rhan o broses arfarnu perfformiad 2014. Mae'r perfformiad yn rhagori ar y targed ac yn gyson â'r broses o roi dull arfarnu perfformiad newydd ar waith.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Ariannol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
F1	Yr amrywiad rhwng incwm gwirioneddol a'r incwm a gyllidebwyd yn unol â'r Amcangyfrif blynyddol cymeradwy	Llai nag un y cant ar ddiwedd y flwyddyn	1.2 y cant	Yn seiliedig ar yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn
F2	Yr amrywiad rhwng gwariant gwirioneddol a'r gwariant a gyllidebwyd yn unol â'r Amcangyfrif blynyddol cymeradwy	Llai na dau y cant ar ddiwedd y flwyddyn	1.2 y cant	Yn seiliedig ar yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn
F3	Gwerth hen ddyledion dros 60 diwrnod oed	Llai na £300,000	£0.2m	Mae'r perfformiad wedi'i briodoli i fwy o weithgarwch i geisio adennill dyledion yn ystod ail chwarter 2015-16.
F4	Gwerth arbedion cost a gynhyrchwyd drwy'r busnes	£760,000 yn 2015-16	£839,000	Nodwyd targed arbedion o £575,000 yn ein cyllideb ar gyfer 2015-16. Mae gwerth £264,000 o arbedion ychwanegol wedi'u nodi yn ein hadolygiad o'r gyllideb ar gyfer yr ail chwarter, a ddefnyddiwyd i wrthbwyso gostyngiadau mewn incwm.
F5	Costau gan gynnwys costau rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn	Llai na £3,300 yn 2015-16	£3,443	Dim ond ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y cawsant eu cyfrifo'n flaenorol. Yn 2015-16, rydym wedi symud i broses adrodd chwarterol ac mae ein ffigurau yn seiliedig ar wariant cyfredol, a allosodir i amcangyfrif blwyddyn lawn. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi dod o hyd i swyddfeydd eraill yng Ngogledd Cymru a fydd yn ein helpu i wella ein heffeithlonrwydd ymhellach o ran gofod a chostau. Caiff buddiannau'r broses hon o symud swyddfeydd eu gwireddu yn 2016-17.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Cymdeithasol

Pa mor dda rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
S1	Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff	Llai na 6.5 diwrnod	7.9 diwrnod	Cafodd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch staff yn ystod chwarter olaf 2014-15 eu heffeithio gan nifer o absenoldebau hirdymor oherwydd salwch, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffigur treigl blynyddol hwn. Fodd bynnag, nodwyd gwelliannau sylweddol mewn lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod hanner cyntaf 2015-16.
S2	Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu priodol pan fydd angen	O leiaf 80 y cant	80 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015. Mae lefel y perfformiad yn adlewyrchu'r buddsoddiad a wnaed mewn cymorth dysgu a datblygu i staff, o ran amser (10 diwrnod fesul WTE ar gyfartaledd) ac arian (tua £1,000 fesul unigolyn).
S3	Cyfran y staff sy'n teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg a chyda pharch, ac sy'n teimlo bod y sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigolion	O leiaf 80 y cant	66 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr ymddiriedaeth ym Mhrifysgol Coventry er mwyn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ddynameg sydd wedi arwain at y lefel hon o berfformiad. Bydd y gwaith yn cynnwys cyfweld â staff a chynnal grwpiau ffocws gyda'r gweithlu cyfan yn ystod ail hanner y flwyddyn.
S4	Cyfran y staff sy'n teimlo bod eu llwyth gwaith yn dderbyniol a'u bod yn gallu taro cydbwysedd da rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd preifat	O leiaf 80 y cant	69 y cant	Canlyniadau o'r arolwg staff 'Pulse' diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015. Yn sgil hyn, mae'r Uwch Dîm Arwain wedi pwysleisio pwysigrwydd defnyddio goramser ac amser i ffwrdd yn gyfnewid am oriau a weithiwyd wrth ddelio â phwysau gwaith yn ystod y cyfnodau prysuraf.
S5	Y gyfran o'n hallbwn sy'n cydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg	100 y cant	100 y cant	Roedd pob cyhoeddiad allanol a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod ar gael yn ddwyieithog. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd ac, fel y cyfryw, nodwyd cydymffurfiaeth lawn.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Amgylcheddol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
E1	Lefel achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru	Cadw ar Lefel 4 yn 2015-16	4	Cafodd achrediad Lefel 4 ei gynnal (tystysgrif Mehefin 2015). Rydym yn gweithio ar hyn o bryd tuag at gyrraedd ein targed cyffredinol, sef achrediad Lefel 5, erbyn 2016-17.
E2	Cyfanswm yr allyriadau CO_2 cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan yr ydym yn ei brynu, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau	Llai na 530 o dunelli yn 2015-16	270 o dunelli	Data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16. Eleni, rydym wedi newid o gyflwyno adroddiadau diwedd blwyddyn i gyflwyno adroddiadau chwarterol. Caiff ein perfformiad ei gyflwyno fel cyfanswm treigl blynyddol unwaith y bydd data digonol ar gael. Rydym wrthi'n ystyried ffyrdd o deithio cyn lleied â phosibl wrth gyflawni busnes, gan gynnal ansawdd ac amseroldeb ein gwaith ar yr un pryd.
E3	Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd	Llai na 60 o dunelli yn 2015-16	30.3 o dunelli	Data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16. Eleni, rydym wedi newid o gyflwyno adroddiadau diwedd blwyddyn i gyflwyno adroddiadau chwarterol. Caiff ein perfformiad ei gyflwyno fel cyfanswm treigl blynyddol unwaith y bydd data digonol ar gael. Rydym wrthi'n ystyried ffyrdd o leihau ein gwastraff ymhellach gyda'r nod o gyflawni ein targed cyffredinol o lai na 50 o dunelli erbyn 2018.
E4	Y gyfran o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio	60 y cant yn 2015-16	39.0 y cant	Yn ystod archwiliad y Ddraig Werdd a gynhaliwyd yn ddiweddar, cydnabuwyd y gallem fod yn tanamcangyfrif ein perfformiad. Rydym yn aros am ymateb gan Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch ein defnydd o ffactorau trosi, ac rydym wrthi'n adolygu ein methodolegau monitro gwastraff gyda chymorth WRAP.
E5	Y defnydd o bapur	Llai na 2,200 o rimiau yn 2015-16	1,235 o rimiau	Data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16. Eleni, rydym wedi newid o gyflwyno adroddiadau diwedd blwyddyn i gyflwyno adroddiadau chwarterol. Caiff ein perfformiad ei gyflwyno fel cyfanswm treigl blynyddol unwaith y bydd data digonol ar gael.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Cyfathrebu

Pa mor dda rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac yn ennyn diddordeb ynddo?

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
C1	Nifer yr ymweliadau â thudalennau gwe	250,000 y flwyddyn (targed diwygiedig)	99,000	Mae'r data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16, a oedd yn cynnwys y cyfnod purdah diweddar. Fe osodwyd y targed blynyddol gwreiddiol o 750,000 o ymweliadau cyn cyflwyno'r broses newydd, well, o olrhain ymweliadau â'r wefan ar ddiwedd 2014-15, sy'n ein galluogi ni i eithrio ymweliadau a wneir yn fewnol gan ein staff. Mae perfformiad yn cael ei fesur ar y sail ddiwygiedig hon ac felly bydd y targed gwreiddiol, sy'n cael ei ystyried yn afrealistig erbyn hyn, yn cael ei ailosod gyda'r dull newydd o fesur perfformiad yn y flwyddyn nesaf.
C2	Y gyfran o erthyglau ynglŷn â'n gwaith a gyhoeddir yn y cyfryngau, ac sydd o safbwynt cadarnhaol neu niwtral	O leiaf 70 y cant	99 y cant	Cafwyd llai o sylw yn y cyfryngau yn ystod y cyfnod purdah. Fodd bynnag, mae lefelau sylw yn y wasg wedi cynyddu ers hynny, yn enwedig ar ôl i ni gyhoeddi ein hadroddiadau cenedlaethol ar Gronfa Buddsoddiad Cymru mewn Adfywio a Chonsortia Addysg Rhanbarthol, a'n hymgyrch 'Fy Sir Benfro'. Roedd y nifer fach o erthyglau negyddol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar oedi canfyddedig o ran cyhoeddi rhai adroddiadau cenedlaethol, a chanlyniadau ein harolwg staff a ddatgelwyd.
C3	Sgôr Klout - mesuriad o'n dylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol drwy ddadansoddi gweithgarwch ein cyfrif Twitter	Sgôr o 45 allan o 100	47	Mae lefelau ymgysylltu cryf yn y cyfryngau cymdeithasol wedi sicrhau ein bod wedi rhagori'n gyson ar sgôr gyfartalog Klout ar gyfer y diwydiant, sef 40 - gan gyrraedd 51 yn ystod y cyfnod. Rydym wedi bod wrthi'n ceisio cynyddu nifer ein dilynwyr yn ystod y misoedd diwethaf ac, yn sgil hynny, rydym yn y 0.6% uchaf sy'n sôn am 'gyfrifyddu' a'r 0.1% uchaf sy'n sôn am y 'sector cyhoeddus' ar Twitter a Facebook. Ochr yn ochr â'n hadroddiadau cenedlaethol, un llwyddiant penodol o ran y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod oedd ein hymgyrch recriwtio 'gyrfa sy'n cyfrif'.
C4	Nifer o fynychwyr yn ein seminarau dysgu ar y cyd	600 y flwyddyn	444	Ffigur treigl blynyddol. Ni chafodd unrhyw seminarau dysgu a rennir eu cynnal na'u hyrwyddo yn ystod y cyfnod purdah rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2015. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd dau seminar arbenigol ar amseroedd aros y GIG, ond cafwyd presenoldeb is yn y seminarau hynny.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Rhif	Disgrifiad o'r mesur	Targed	Perfformiad ar 30 Medi 2015	Sylwadau
C5	Nifer yr achlysuron lle caiff ein staff wahoddiad i gyflwyno dysgu ym maes archwilio mewn cynadleddau a digwyddiadau a gynhelir yn allanol	25 y flwyddyn	10	Mae'r data ar gyfer hanner cyntaf 2015-16. Roedd y gwahoddiadau i annerch yn cwmpasu ystod eang o'n gwaith. Ymhlith y pynciau dan sylw roedd egluro newidiadau i'r trefniadau ar gyfer archwilio cynghorau cymuned yn 2015-16 yng nghynhadledd Un Llais Cymru, egluro ein safbwynt ar reoli meddyginiaethau i gymuned y GIG, a chyflwyno ein gwaith archwilio ym maes caffael i gydweithwyr archwilio o bob rhan o Ewrop yn seminar EURORAI yn St Petersburg.

Risg isel Risg ganolig Risg uchel Targed

Ar gyfer mesurau perfformiad lle rydym eto i gyrraedd ein targedau, rydym wedi darparu asesiad risg o beidio â gallu cwrdd â'r targedau erbyn 31 Mawrth 2016.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru